


# RHODD CYMODI COSTUS CRIST

## WYTHNOS 4

"Cymodi gwlad glwyfedig - dysgu o'r Eglwys yn Sri Lanka"

**Ysgrythur:** Rhufeiniaid 8: 18-30 NRSV (Seisnigeiddiwyd)

### Myfyrdod

"*Ein gweddi frwd yw y caiff 'newid' ei gyflawni drwy ddulliau heddychlon. Galwn am dawelwch, ataliaeth ac amynedd ymhlith ein pobl yn y sefyllfa hynod ddirdynedig a bregus hwn.*"
(Datganiad Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, Mai 10, 2022)

Yr wythnos hon, gweddïwn gyda phobl Sri Lanka, ac wrth gefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka, ar adeg o ansicrwydd mawr a chyffro gwleidyddol yn y wlad honno. Mae CTBI yn cefnogi gwaith Cyngor Cristnogol Cenedlaethol Sri Lanka i ddyfnhau ysbrydolrwydd cymod drwy gynnal ymgysylltiad sydd â ffydd yn ganolog iddo, gydag etifeddiaeth trais a rhaniad, a'r anghydraddoldebau sy'n deillio o ganlyniad i hynny ac sy'n gwaethygu dyfodol gwleidyddol ac economaidd ansicr.

Mae gan CTBI a rhai o'i eglwys aelodau berthynas hir hoedlog gyda'r Eglwys yn Sri Lanka. Cyn trefedigaeth Brydeinig yw'r wladwriaeth ynys amlgenedl hon a ddarparodd planhigfeydd ar gyfer cwmni'r British East India Company. Ar ôl annibyniaeth, arweiniodd tensiynau ethnig mewn degawdau o wrthdaro treisgar rhwng Llywodraeth Sri Lanka a Theigrod Rhyddid Tamil Eelam, gyda 60,000 o farwolaethau o leiaf, a dadleoli pobl a cham-drin hawliau dynol eraill ar raddfa eang. Fe wnaeth eglwysi ym Mhrydain ac Iwerddon gefnogi gwaith adeiladu heddwch yr Eglwys yn Sri Lanka, gan rannu profiadau'r broses heddwch yn Iwerddon.

Mae ein project cyfredol yn adeiladu ar y gwaith hwnnw gyda ffocws ar ddiwinyddiaeth y wlad honno. Canolbwyntiwyd llawer o'r gwrthdaro yn Sri Lanka ar gwestiynau yn ymwneud â thir. Mae bod heb dir ac absenoldeb hawliau eiddo yn rhwystrau sylweddol i gymodi a sicrhau heddwch sydd yn para. Drwy'r project, mae Eglwys Sri Lanka yn ceisio cefnogi'r Eglwys i gymryd rhan mewn myfyrdod hunan-feirniadol, i gyfeirio at ei fannau dall ei hun a'i fethiannau blaenorol, a sicrhau fod ei ddiwinyddiaeth yn cysylltu gyda realaeth bywydau pobl bob dydd, yn enwedig y cymunedau mwyaf bregus ac a ymyleiddiedig. Caiff materion yn ymwneud â hawliau

tir a gwrthdaro yn ymwneud â thir eu chwilota drwy safbwynt cyfiawnder hinsawdd, cyfiawnder rhywedd a thrawsnewid gwrthdaro, gan nodi'r pwyntiau o gyswllt niferus rhwng y themâu hyn.

Drwy gydol 2022, fe wnaeth Eglwys Sri Lanka gynnal cyfres o ymyraethau ar argyfwng gwleidyddol ac economaidd y wlad oedd yn gwaethygu. Cafodd ei gydnabod gan arweinwyr Eglwysig fod gan yr ifanc ran sylweddol i'w chwarae wrth symbylu ac arwain y mudiad dros newid, ac fe wnaethon nhw wynebu peryglon mawr i'w diogelwch: "*Galwn ar y bobl, yn enwedig Ieuenctid ein gwlad a wnaeth aberthu'n ddi-ofn ar sawl achlysur gan gondemnio'r system bresennol o lywodraethiant llwgr gan alw am ddiwygiadau adferol, i barhau gyda'u cynnwrf an-wleidyddol, heddychlon ar gyfer rheolaeth drwy gyfraith a llywodraethiant a ragwelir yn fawr, drwy barchu cyfreithiau llywodraethu cyfredol y wlad ac i ymatal rhag unrhyw weithredoedd o niweidio eiddo cyhoeddus na phreifat, gan gynnwys eiddo sydd o werth treftadol*" (Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka, Gorffennaf 21, 2022). Fe wnaethon nhw alw am ffurfio llywodraeth holl-bleidiol "*er mwyn i bawb allu byw fel dinasyddion gyda chydraddoldeb ac urddas*" (Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka, Gorffennaf 20, 2022). Ar lefel cymunedau lleol, fe wnaethon nhw roi pwyslais arbennig ar arweinyddiaeth gan fenywod, a threfnu cynhadledd genedlaethol a ddaeth â menywod o wahanol gefndiroedd hunaniaeth ynghyd o dan y thema 'Dagrau ym mharadwys a'r angen sefyll gyda'n gilydd', gan gydnabod fod yna dioddefaint dwfn yn llechi o fewn prydferthwch tirwedd Sri Lanka na ellir ei wella ond drwy ddod â chymunedau ynghyd.

Yn 2023 bydd gan y project brif ffocws ar gofnodi 200 mlynedd o bresenoldeb cymuned y blanhigfa, a ddygwyd i Sri Lanka gan yr awdurdodau Prydeinig er mwyn gweithio yn y planhigfeydd coffi a the. Mae Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka yn gweithio i amlygu cyfraniad y gymuned hon i economi Sri Lanka ac i'r genedl gyfan, tra eu bod hefyd yn ceisio amlygu'r heriau a wynebant heddiw, gan fyw heb gartrefi neu gyfeiriadau post, yn gweithio am lai na chyflog byw. Drwy weddi ac addoliad byddant yn ceisio creu cyfleoedd ar gyfer tystio, cydsafiad ac edifeirwch.

Mae darn yr wythnos hon o'r Ysgrythur yn ein hatgoffa bod Duw yn bresennol yng nghanol ein dioddefaint, gan gadw addewid cymod o'n blaenau. Gweddiwn y bydd Duw yn bendithio ymdrechion Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka wrth iddo geisio tywys a chefnogi pobl drwy'r amseroedd heriol hyn.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrfod a thrafodaeth**

- Beth allwn ni ei ddysgu gan ymagwedd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka tuag at derfysg gwleidyddol a bygythiadau i ddemocratiaeth?
- Cafodd arweinwyr eglwysig yn Sri Lanka eu hysbrydoli gan actifyddion ifanc yn eu protestiadau dros newid ac wedi eu cefnogi yn gyhoeddus. A welwch chi gefnogaeth debyg i actifyddion ifanc yn eich Eglwys?
- Ydych chi'n teimlo fod yr Eglwys yn ddigon uchel ei chloch wrth leisio barn ar fygythiadau i ddemocratiaeth o fewn eich cyd-destun?

**Camau i'w cymryd**

- Ewch i wefan Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka (NCCSL) neu dilynwch nhw ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn cael eich diweddaru ynglŷn â'u gwaith. Rhannwch yr hyn rydych yn ei ddysgu gydag eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth.

- Ceisiwch ddod o hyd i ffyrdd o ddefnyddio enghraifft Sri Lanka, a gwaith Cyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka, i ddechrau sgyrsiau am waddol gwladychu a chaethwasiaeth a'r ffyrdd ymarferol gall yr eglwys hybu gwella a chymod.
- A allech chi gynnwys gweddïau dros Sri Lanka fel rhan o'ch addoliad ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi'r gwaith gwella a wneir gan Gyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka?

**Gweddi**

Dduw cariadus,
Gweddiwn dros bobl Sri Lanka
wrth iddyn nhw weithio i wella clwyfau
anghyfiawnder canrifoedd oed.
Rhowch i eglwysi Sri Lanka
yr hyder i aros ar y daith hon gyda'i gilydd,
drwy Gyngor Cenedlaethol Eglwys Sri Lanka
ac i weithio mewn partneriaeth a chyfeillgarwch
gyda chymunedau ffydd eraill.
Boed i ni gael ein hysbrydoli drwy ddod â phobl
o ffydd, merched ac ieuenctid o wahanol gefndir ynghyd,
i wneud safiad dewr
dros gyfiawnder a dyfodol gwell.
Helpa ni weld mai'r unigolion a'r cymunedau yn Sri Lanka
a wadwyd eu hawliau a'u hurddas
yw ein cymdogion
ac i dderbyn ein cyfrifoldeb
i helpu adfer yr hyn a gymerwyd oddi wrthyn nhw.
Amen.